

Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd Pencadlys yr Heddlu 04 Mehefin 2019

COFNODION

Yn bresennol

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

- | | |
|------------------------------|--|
| • Lee Jones – Cadeirydd (LJ) | Prif Swyddog Gweithredol (Dros Dro) |
| • Hannah Jenkins-Jones (HJJ) | Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydaddoldeb |
| • Sarah Mahon (SM) | Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd |
| • Jackie Trow (JT) | Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth |

Heddlu De Cymru

- Richard Lewis (RL) – Dirprwy Brif Gwnstabl
- Phil Ashby (PA) – Prif Uwch-arolygydd, Gwasanaethau Corfforaethol

Ymddiheuriadau

- Emma Wools (EW) – Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Jayne Powney (JP) – Swyddog Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
- Caroline Smart (CS) – Gwasanaethau Corfforaethol
- Jeremy Vaughan (JV) – Prif Gwnstabl Cynorthwyol

Lee Jones (Cadeirydd)

1. Croeso a Chyflwyniadau

- 1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a nododd ymddiheuriadau. Atgoffodd LJ y rhai a oedd yn bresennol am nod y cyfarfod, gan nodi'r gwahaniaeth rhwng y cyfarfod 'at wraidd y mater' bob chwe wythnos a'r cyfarfod 'uwchgyfeirio'. Cadarnhaodd LJ mai dim ond bob 12 wythnos y byddai pynciau 'at wraidd y mater' yn cael eu trafod, fel yr amlinellwyd yn rhaglen graffu 2019-20 ac y cytunwyd arno yng nghyfarfod Bwrdd Strategol y Comisiynydd.
- 1.2 Byddai cyfarfodydd uwchgyfeirio fel arfer yn trafod materion sy'n dod i'r amlwg a uwchgyfeiriwyd gan Fyrddau eraill, ond gan nad oedd y Byrddau o dan y strwythur llywodraethu newydd wedi cyfarfod eto, nid oedd unrhyw faterion wedi'u huwchgyfeirio i'w trafod. Nododd LJ y byddai aelodaeth y cyfarfod uwchgyfeirio yn cynyddu yn y dyfodol i gynnwys arweinwyr y Byrddau perthnasol.

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir ac nad oedd unrhyw faterion yn codi. Trafodwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a darparwyd y diweddariadau canlynol:

Rhif	Cam Gweithredu	Arweinydd	Diweddariad
1	Anfon dogfen Adolygu Troseddau Casineb yr adran Llywodraethu Corfforaethol ymlaen i Dîm y Comisiynydd.	Gwasanaethau Corfforaethol	<p>Dywedwyd wrth PA fod JW wedi rhannu'r adroddiad â thîm y Comisiynydd.</p> <p>Cadarnhaodd HJJ a LJ nad oedd yr un ohonynt wedi cael yr adroddiad.</p> <p>Dywedodd PA y byddai'r ddogfen yn cael ei hailanfon.</p> <p>Dywedodd PA wrth y bwrdd y byddai'r Gwasanaethau Corfforaethol yn recriwtio Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn fuan.</p> <p>Byddai'r gwaith o adolygu a diwygio'r adroddiad ar Droseddau Casineb yn rhan o gylch gwaith y rôl hon yn y dyfodol.</p>
2	Estyn gwahoddiad i Dîm y Comisiynydd ymweld â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried y gwasanaethau troseddau casineb a ddarperir.	Gwasanaethau Corfforaethol	Cadarnhaodd RL mai Andy Kingdom fyddai'r cyswllt ar gyfer trefnu ymweliad â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.
3	Yr adran Datblygu Corfforaethol i ystyried datblygu proffil problemau troseddau casineb ar gyfer De Cymru (gan gynnwys tueddiadau o ran dioddefwyr a throseddwyr).	Gwasanaethau Corfforaethol	Mae gwaith yn mynd rhagddo i uno proffiliau cymdogaethau a phroffiliau problemau.
4	Yr adran Datblygu Corfforaethol i gyflwyno data ar ddiodefwyr troseddau casineb mynych a throseddwyr mynych i Dîm y Comisiynydd.	Gwasanaethau Corfforaethol	Roedd y data hyn wrthi'n cael eu hymgorffori yn Natganiad Rheoli'r Heddlu. Pan fyddai'r gwaith hwn wedi'i gwblhau, byddai'r Datganiad yn cael ei rannu.
5	Tîm y Comisiynydd i lunio crynodeb o'r argymhellion sy'n deillio o'r trafodaethau ar droseddau casineb	Tîm y Comisiynydd	Trafod yr argymhellion, a chytuno arnynt, yn y cyfarfod.
6	Tîm y Comisiynydd i ddatblygu crynodeb o'r casgliadau mewn perthynas â'r camau nesaf o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig lle y bydd cydweithio yn fuddiol.	Mark Brace	Trafod y casgliadau a chytuno ar ffordd ymlaen yn y cyfarfod.
7	Yr adran Datblygu Corfforaethol i ystyried anghenion cyfathrebu dioddefwyr wrth ddatblygu'r opsiynau ar gyfer arolygon bodddhad dioddefwyr newydd.	Carol Woodward	I'w hystyried fel rhan o'r broses o roi'r Rhaglen Deall Dioddefwyr ar waith.

3. Casgliadau'r Cyfarfod At Wraidd y Mater ynghylch Troseddau Casineb ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

- 3.1 Trafodwyd y canfyddiadau at wraidd y mater ynghylch troseddau casineb a gyflwynwyd yn y cyfarfod ar 1 Mai 2019.
- 3.2 Cyfeiriodd LJ at yr adroddiad ar gasgliadau ac argymhellion a gyflwynwyd gan dîm y Comisiynydd. Pwysleisiodd LJ mai nod yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad oedd ysgogi newid cadarnhaol mewn ymateb i'r adborth a gasglwyd. Yn fras, roedd y casgliadau a'r argymhellion ynghylch troseddau casineb wedi'u rhannu'n dri maes, sef: cyfathrebu a hyfforddiant mewnol, cyfathrebu a chyhoeddusrwydd allanol, a darparu gwasanaethau. Awgrymodd LJ y byddai'n werth chweil neilltuo un pwynt cyswllt ar gyfer pob un o'r argymhellion a gategoreiddiwyd.
- 3.3 Derbyniodd RL yr argymhellion a gyflwynwyd gan dîm y Comisiynydd. Cydnabu RL fod angen diweddarau'r hyfforddiant ar droseddau casineb, ond roedd yn ymwybodol bod y galw presennol i gynnwys modiwlau mewn hyfforddiant ar gyfer swyddogion wedi golygu bod y maes hyfforddi wedi mynd yn orlawn.
- 3.4 Trafodwyd pwysigrwydd cynnwys profiadau ymarferol mewn hyfforddiant ar gyfer swyddogion yr heddlu. Wrth i droseddau casineb ddatblygu'n barhaus, roedd cynnwys dioddefwyr a allai helpu i gynnig safbwyntiau newydd yn allweddol. Cytunodd y bwrdd y byddai'n bwysig cynnwys PALG pan fyddai'r pecyn hyfforddi wedi'i ddatblygu.
- 3.5 Trafododd y bwrdd bwysigrwydd rhoi hyfforddiant ar droseddau casineb i recriwtiaid newydd ac ystyriodd gyfleoedd i hwyluso hyn drwy gwricwlwm y Fframwaith Cymwysterau Addysgol Proffesiynol (PEQF). Gofynnodd JT pa fodiwlau ar droseddau casineb a oedd wedi'u cynnwys yng nghwricwlwm y PEQF ar hyn o bryd. Nododd HJJ fod y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi buddsoddi arian yn y gorffennol i benodi arbenigwyr yn y maes i gyflwyno modiwlau arbenigol i swyddogion. Byddai'n werth chweil trafod dichonoldeb ailgyflwyno hyn.
- 3.6 Rhoddodd RL drosolwg i'r bwrdd o raglen arweinyddiaeth Police Now. Awgrymodd RL fod y rhaglen yn gyfle delfrydol i gynnwys troseddau casineb fel maes pwnc i gyfranogwyr y rhaglen arwain arno.
- 3.7 Pwysleisiodd SM bwysigrwydd defnyddio adborth gan ddioddefwyr i lywio ffofws strategaeth gyfathrebu newydd yn barod ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2019. Cynigiodd SM weithio gyda'r arweinwyr perthnasol i sicrhau bod y negeseuon yn cael eu hail-lunio, gan ganolbwyntio ar roi sicrwydd i ddioddefwyr a thystion a fyddai'n eu hannog i roi gywbod i Heddlu De Cymru am droseddau casineb.
- 3.8 Cyfeiriodd LJ at yr argymhellion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cytunwyd y byddai Mark Brace a'r Gwasanaethau Corfforaethol yn mynd ar drywydd yr argymhellion.
- 3.9 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phroffiliau cymdogaethau a phroffiliau problemau. Dywedodd PA mai'r nod oedd i'r rhain gael eu llunio ar y cyd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gysylltiedig yn hytrach na'i bod yn cael ei darllen yn annibynnol.
- 3.10 Derbyniwyd yr holl argymhellion ynghylch troseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chytunwyd y byddai diweddariadau'n cael eu cyflwyno yn y cyfarfod uwchygyfeirio nesaf ym mis Medi 2019.

CAMAU GWEITHREDU: Mark Stevenson i anfon dadansoddiad trylwyr o'r modiwlau ar droseddau casineb sy'n rhan o gwricwlwm y PEQF.

4. Y Defnydd o Bwerau Stopio a Chwilio Adran 60

- 4.1 Estynnwyd gwahoddiad i PA gyflwyno adroddiad ar ddefnydd yr heddlu o bwerau Stopio a Chwilio Adran 60. Eglurodd PA mai dim ond fel dewis olaf yr oedd Heddlu De Cymru yn ystyried arfer bwerau adran 60, yn seiliedig ar lefel y bygythiad a'r risg, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n gymesur. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, roedd yr heddlu wedi awdurdodi bwerau Adran 60 ar bedwar achlysur.
- 4.2 Yng ngoleuni'r cynnydd yn nifer yr achosion o droseddau cyllyll yng Nghymru a Lloegr, roedd y Swyddfa Gartref bellach wedi gwneud newidiadau i Adran 60, gan alluogi swyddogion rheng is i gymeradwyo'r bwerau. Roedd y newidiadau hyn yn berthnasol i'r saith heddlu yr oedd troseddau casineb yn effeithio arnynt waethaf, mewn ymdrech i gael gwared ar gyllyll oddi ar y strydoedd. Roedd Heddlu De Cymru yn un o'r heddluoedd hyn.
- 4.3 Trafododd y bwrdd yr anhrefn ar raddfa fawr ddiweddar ym Mhontypridd. Cyflwynwyd gorchymyn stopio a chwilio Adran 60 yn yr ardal gyfagos yn dilyn honiadau bod hyd at 300 o bobl ifanc wedi cynnull yn ardal y dref. Dywedodd PA fod yr heddlu wedi cymryd camau cadarnhaol mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y cyhoedd yn sgil gwaith ymgysylltu a chyfathrebu rhagweithiol â'r cyhoedd cyn i'r hysbysiad Adran 60 gael ei gyflwyno.
- 4.4 Cwestiynwyd nifer isel y chwiliadau a gynhaliwyd ym Mhontypridd yn dilyn cyflwyno'r Hysbysiad Adran 60. Cwestiynwyd a fyddai'r cyhoedd wedi disgwyl i fwy o chwiliadau fod wedi cael eu cynnal er mwyn hybu diogelwch y cyhoedd tra bo'r gorchymyn ar waith. Ni waeth beth fo'r bwerau a awdurdodwyd o dan yr hysbysiad Adran 60, dywedodd RL mai'r nod oedd targedu unigolion y credwyd eu bod yn arweinwyr, er mwyn atal rhagor o achosion rhag cael huwchgyfeirio. Roedd nifer isel y chwiliadau yn yr achos hwn yn dangos dull synnwyr cyffredin o ddefnyddio'r bwerau o dan Adran 60. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd fod hwn yn ymateb ystyriol gan yr heddlu i'r mater dan sylw. Roedd yn enghraifft gadarnhaol i hyrwyddo'r gymuned, a oedd yn rhoi hyder bod bwerau stopio a chwilio yn cael eu harfer yn deg.
- 4.5 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynnydd disgwylidig yn nifer yr achosion o stopio a chwilio a'r defnydd o bwerau Adran 60 o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr achosion o droseddau cyllyll a throseddau cyfundrefnol. Roedd RL hefyd yn rhagweld nifer anghymesur o achosion o stopio a chwilio o ganlyniad i nifer yr unigolyn sy'n ymwneud â throseddau cyllyll a grwpiau troseddu cyfundrefnol yn ardal yr heddlu.
- 4.6 Trafododd y bwrdd enghreifftiau o densiynau cymunedol â'r heddlu lle roedd unigolion yn ymwneud â gweithgarwch troseddol heb yn wybod i'w teuluoedd – yn enwedig mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Awgrymodd RL y dylid defnyddio PALG i drafod tensiynau cymunedol, cysylltiadau, a disgwyliadau mewn perthynas â'r materion hyn.
- 4.7 Cyfeiriodd RL at strategaeth reoli'r heddlu, a oedd yn amlinellu'r blaenoriaethau'r heddlu o ran trosedd ac anhrefn. Roedd y strategaeth yn canolbwyntio ar chwe maes plismona allweddol yr ystyriwyd eu bod yn peri'r risg fwyaf o niwed i'r gymuned. Nododd RL fod seilwaith a meddylfryd y sefydliad i fynd i'r afael â'r materion hyn yn gadarnhaol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r cynnydd

mawr diweddar yn nifer yr achosion o droseddau cyllyll a throseddau cyfundrefnol, roedd angen cyflymu'r gwaith hwn.

- 4.8 Cyfeiriodd LJ at fap prosesau Adran 60 a gofynnodd a ellid cynnwys hysbysu'r Comisiynydd ar ôl i gais Adran 60 gael ei awdurdodau yn y map prosesau. Cytunodd RL y gellid gwneud hyn drwy friffio'r Prif Swyddogion.
- 4.9 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd hyrwyddo gwaith cadarnhaol yr heddlu drwy'r cyfyngau, megis yr enghraifft ym Mhontypridd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar adegau pan oedd y cyfryngau'n portreadu'r heddlu mewn modd negyddol.
- 4.10 Trafododd y bwrdd yr effaith ar y gymuned a chydlyniant yn dilyn achosion o anrhefn gymunedol. Dywedodd PA fod systemau ar waith i ymgysylltu â chymunedau yn dilyn digwyddiadau drwy ddull penodol.

5. Diweddariad ar Droseddau Cyllyll

- 5.1 Rhoddodd RL drosolwg byr i'r bwrdd o'r darlun cenedlaethol a lleol o ran troseddau cyllyll. Nododd RL fod gwaith pellach i ddeall proffiliau problemau yn flaenoriaeth. Roedd y Swyddfa Gartref wrthi'n ceisio casglu data gwell ar gyllyll. Roedd Heddlu De Cymru yn un o blith saith heddlu yng Nghymru a Lloegr a oedd wedi cael cyllid gan y Swyddfa Gartref i fynd i'r afael â throseddau cyllyll.
- 5.2 Dywedodd RL fod cyfres o waith yn mynd rhagddo fel rhan o strategaeth reoli'r heddlu, gyda'r nod o wella gwydnwch strwythurau ymchwilio yn ogystal â chyfarpar a hyfforddiant.
- 5.3 Rhoddodd HJJ enghraifft anecdotaidd o droseddau cyllyll, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl ifanc nad oeddent yn ymwneud â gweithgarwch troseddol yn cael eu hamlygu i ddiwylliant o gario cyllid ac weithiau'n teimlo bod angen iddynt gario un er mwyn sicrhau eu diogelwch eu hunain. Trafododd y bwrdd anawsterau mynd i'r afael â'r diwylliant hwn a oedd bellach yn dod i'r amlwg ymhlith pobl ifanc. Rhoddodd PA drosolwg o'r strategaeth dargedu a oedd ar waith ar gyfer plant 12 oed a throsodd. Roedd troseddau cyllyll bellach yn rhan hollbwysig o'r rhaglen cyswllt ysgolion. Fodd bynnag, roedd torri'r cylch cred yn parhau i fod yn her anodd ei goresgyn. Hefyd, nodwyd bod gwahanol faterion diwyllianol yn dod i'r amlwg mewn cymunedau ledled ardal yr heddlu. Dywedodd RL wrth y bwrdd fod arweinydd troseddau cyllyll difrifol bellach wedi'i benodi i'r heddlu.
- 5.4 Trafododd y bwrdd bwysau sefydliadol, yn enwedig o ran capasiti a'r galw cynyddol i ymateb i faterion nad oeddent o reidrwydd yn faterion i'r heddlu. Gan fod natur trais a throseddau difrifol wedi datblygu ac wedi dod yn fwy soffistigedig, roedd yr heddlu bellach yn gwerthuso'r hyn yr oedd yn ymateb iddo fel swyddogaeth graidd.
- 5.5 Gofynnodd JT a oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng yr ymosodiadau diweddar ar swyddogion a'r cynnydd yn nifer y swyddogion sy'n cario gynau taser. Cadarnhaodd PA nad oedd cysylltiad uniongyrchol, ond eu bod yn cael eu hystyried yn adnodd ychwanegol i ddiogelu swyddogion ac yn ddull atal gwell. Roedd yr adborth a gafwyd gan swyddogion rheng flaen yn gadarnhaol, gan fod cario gwn taser yn rhoi mwy o dawelwch meddwl iddynt. Wrth i'r heddlu barhau i asesu effaith digwyddiad ar swyddog, boed hynny'n gorfforol neu'n feddyliol, ychwanegodd RL y gellid rhoi'r systemau cymorth cywir a'r newidiadau cywir i hyfforddiant swyddogion ar ddiogelwch ar waith.

Cyfeiriodd L at adnoddau a gyflwynwyd yn ddiweddar, megis giardiaau poeri a chamêrau a wisgir ar y corff.

- 5.6 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â dyrannu sesiwn ar wahân ar droseddau cyllyll, lle y gellid darparu safbwynt gwell. Cytunodd LJ y byddai sesiwn benodol a fyddai'n lleihau paramedrau'r drafodaeth ar droseddau cyllyll yn fuddiol. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd, Panel yr Heddlu a Throseddu, a'r cyhoedd. Cytunodd y Pwyllgor y byddai sesiwn ar wahân ar droseddau cyllyll yn cael ei threfnu, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth am sut y byddai'r cyllid a ddyfarnwyd yn cael ei ddefnyddio.

CAMAU GWEITHREDU: Tîm y Comisiynydd i gysylltu â Gwasanaethau Corfforaethol i drefnu sesiwn arbenigol ar droseddau cyllyll.

6. Diweddariad ar Adolygiad o Wariant y Swyddfa Gartref

- 6.1 Roedd Brexit wedi cyfrannu at yr oedi cyn i'r Swyddfa Gartref gadarnhau cyllideb. O ganlyniad, roedd ansicrwydd o hyd tan fis Hydref. Cytunodd y Bwrdd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod y Bwrdd Adnoddau.

7. Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

- 7.1 Cyfeiriodd LJ at yr Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a luniwyd gan yr heddlu. Nododd LJ ei arsylwadau mewn perthynas â'r iaith a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad, yn benodol mewn perthynas â'r defnydd o 'chwarteli'. Gan ei fod yn ddogfen gyhoeddus, cwestiynodd LJ a ellid defnyddio termau symlach. Cytunodd MS y byddai'n egluro pa 'fandiau chwarteli' oedd y rhai isaf ac uchaf yn fersiwn nesaf y ddogfen.
- 7.2 Cwestiynodd HJJ y ffigurau mewn perthynas â chyfran y dynion a'r menywod a oedd wedi cael taliad bonws. Nododd HJJ nifer anghymesur y menywod a oedd wedi cael bonws o gymharu â nifer y dynion. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer staff yr heddlu. Er bod canran uwch o staff benywaidd yn yr heddlu, roedd cyfran fwy o ddynion wedi cael bonws. Pwysleisiodd MS fod y taliadau bonws a nodwyd yn yr adroddiad yn seiliedig ar ffigurau mis (Mawrth 2018). O ganlyniad, roedd y ffigurau yn ddibwys yn ystadegol.
- 7.3 Trafododd y bwrdd y meini prawf ar gyfer taliadau bonws. Cadarnhaodd MS fod unigolion yn cael taliadau bonws am gyflawni dyletswyddau annymunol. Gofynnodd HJJ sut roedd unigolion cymwys yn cael eu nodi ar gyfer taliadau bonws. Cadarnhaodd RL mai mater i'r unigolyn oedd gofyn am daliad o'r fath. Trafododd y bwrdd y risg y gellid dangos rhagfarn ar sail rhyw wrth roi taliadau bonws, yn enwedig os oedd menywod yn llai hyderus i drafod arian. Cyfeiriodd HJJ at yr ymchwil a gasglwyd ar gyfer y Cynllun Cyflawni ar gyfer Rhywedd, a nododd fod diffyg hyder menywod yn rhwystr allweddol iddynt.
- 7.4 Nododd MS y gwelwyd newid yn y chwarteli yn ystod ail flwyddyn y cyfnod adrodd. Bu cynnydd bach yn nifer y swyddogion benywaidd yn y chwarteli is, ond roedd y chwarteli uchaf yn parhau i fod yn destun pryder. Awgrymodd MS fod yr heddlu yn ystyried llunio adroddiad y flwyddyn nesaf ym mis Gorffennaf er mwyn cyfleu darlun mwy 'cyfredol'. Cyfeiriodd MS at ganran y swyddogion benywaidd a recriwtiwyd yn ddiweddar, sef 42%, a oedd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol.

7.5 Gofynnodd tîm y Comisiynydd am ddadansoddiad o daliadau bonws yn ôl rhyw ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, fel y gellid llunio casgliadau a chymariaethau.

CAMAU GWEITHREDU: MS i ddarparu dadansoddiad o daliadau bonws dros y 12 mis i dîm y Comisiynydd.

8. Unrhyw Fater Arall

8.1 Gofynnodd RL a fyddai'r bwrdd uwchgyfeirio yn trafod adroddiadau ACEM. Nododd RL y byddai'r arolygiadau o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) yn cael eu cyhoeddi yn fuan, yn ogystal â'r adroddiad ar linellau cyffuriau. Byddai'n fuddiol i'r rhain gael eu trafod yng nghyfarfodydd bwrdd. Cytunodd LJ i gynnwys arolygiadau ACEM fel eitem sefydlog ar yr agenda, a chroesawodd dderbyn adroddiad arolygu ACEM ar PEEL yn y cyfarfod nesaf.

CAMAU GWEITHREDU: Cynnwys arolygiadau ACEM fel eitem sefydlog ar yr agenda – arolygiad ACEM o PEEL yn y cyfarfod uwchgyfeirio ar 4 Medi.

TABL CAMAU GWEITHREDU

Rhif y Cam Gweithredu	Cam Gweithredu	Dyddiad diweddarau neu gwblhau
1	Mark Stevenson i anfon dadansoddiad trylwyr o'r modiwlau ar droseddau casineb sy'n rhan o gwricwlwm y PEQF.	4 Medi 2019
2	Tîm y Comisiynydd i gysylltu â Gwasanaethau Corfforaethol i drefnu sesiwn arbenigol ar droseddau cyllyll.	4 Medi 2019
3	Mark Stevenson i ddarparu dadansoddiad o daliadau bonws dros y 12 mis diwethaf i dîm y Comisiynydd.	4 Medi 2019
4	Tîm y Comisiynydd i gynnwys arolygiadau ACEM fel eitem sefydlog ar yr agenda – arolygiad ACEM o PEEL ar gyfer y cyfarfod uwchgyfeirio.	4 Medi 2019